# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3) 09-09 : Cofnodion

**Dyddiad: Dydd Mawrth 9 Mehefin 2009**
**Amser: 09:35- 10:39**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Sandy Mewies AC, Delyn (Cadeirydd Dros Dro)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Mike German AC, Dwyrain De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Alun Davidson, Clerc

Gareth Thomas, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorwr Cyfreithiol

### Cyflwynwyr

Richard Cole, Uwch Swyddog Cynllunio, Cyngor Sir Caerdydd

Steven Phillips, Cyfarwyddwr Corfforaethol, yr Amgylchedd, Cyngor Sir Caerdydd

### 1. Ethol Cadeirydd Dros Dro

Etholwyd Sandy Mewies AC yn Gadeirydd Dros Dro o dan Reol Sefydlog 10.19.

#### 2. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Val Lloyd AC ac roedd Sandy Mewies AC yn dirprwyo ar ei rhan.

### 3. Sesiwn dystiolaeth: Deiseb P-03-197 Achub y Vulcan

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Gyngor Sir Caerdydd.

#### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai am eglurhad o bolisi'r llywodraeth ar gyfarwyddiadau Erthygl 4 mewn perthynas â rhestru adeiladau lleol

Anfon y dystiolaeth a gasglodd y Pwyllgor mewn perthynas â'r ddeiseb at y Gweinidog dros Dreftadaeth, a rhoi gwybod iddo fod y Pwyllgor yn ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ynghylch cyfarwyddiadau Erthygl 4

Gofyn i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau baratoi papur ar y Mesur Diogelwch Treftadaeth drafft y mae Senedd y DU yn ei ystyried ar hyn o bryd

Gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a yw wedi anfon sylwadau at lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfarwyddiadau Erthygl 4 a rhestru lleol

### 4. Deisebau newydd

### (i) P-03-209 Dileu ffioedd dysgu atodol yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

#### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am ei safbwynt ar ddileu ffioedd dysgu atodol.

### (ii) P-03-217 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - agor ar ddydd Sadwrn

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth am safbwynt llywodraeth Cymru, ac am fanylion unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Llyfrgell Genedlaethol ar y mater hwn

Gofyn i'r Llyfrgell Genedlaethol a oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r penderfyniad i gau ar ddydd Sadwrn, ac am fanylion ynghylch cyfanswm yr arbedion a ragwelir drwy gau ar ddydd Sadwrn.

### (iii) P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am fanylion y ddarpariaeth triniaeth traed sydd ar gael, a pha gamau y mae llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i sicrhau cysondeb yn y gwasanaeth ar draws Cymru

Gofyn i Fwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf am fanylion y ddarpariaeth triniaeth traed ar lefel leol

### (iv) P-03-224 Meithrinfa Stepping Stones

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a yw'n disgwyl y bydd arian yn cael ei roi i ariannu Meithrinfa Stepping Stones Coleg Gwent

Gofyn i'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio a fydd unrhyw arian yn cael ei roi i ariannu'r feithrinfa o dan feini prawf adfywio

#### (v) P-03-227 Yn erbyn y ffordd fynediad arfaethedig am Metrix yn Lanmaes

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog a yw'n fodlon ystyried newid y cynlluniau ar gyfer datblygiad Metrix er mwyn ystyried pryderon trigolion lleol

Gofyn i Metrix a yw'n fodlon ystyried newid ei gynlluniau datblygu er mwyn ystyried pryderon trigolion lleol

## 4. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### (i) P-03-144 Cŵn Tywys y Deillion

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog ysgrifennu at holl awdurdodau priffyrdd lleol Cymru i bwysleisio pwysigrwydd ystyried anghenion pobl â nam ar eu golwg wrth gynllunio datblygiadau mewn mannau neu arwynebau a rennir

### (ii) P-03-172 Adfer Fferi Abertawe-Cork

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog am ei farn ar y dystiolaeth a anfonwyd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 5 Mai 2009

### (iii) P-03-185 Cynllun Adfywio Llanilltud Fawr

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb gan nad oedd yn teimlo bod modd mynd â'r ddeiseb ymhellach

### (iv) P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn ei barn am y problemau ynghylch recriwtio meddygon ar raddfeydd canolig ar draws Cymru, am fanylion unrhyw gamau a gymerodd neu y mae'n bwriadu eu cymryd mewn perthynas â hyn, ac hefyd i ofyn i barn ynghylch a yw'r trefniadau trwydded waith i feddygon o'r tu allan i'r UE yn rhwystro recriwtio meddygon ar raddfeydd canolig

Ysgrifennu at Gydffederasiwn y GIG i ofyn a all gynnig unrhyw gefnogaeth i Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf i recriwtio meddygon ar raddfeydd canolig

### (v) P-03-190 Na i Ffordd Maes Awyr Dyffryn Elai

#### (vi) P-03-218 Achubwch Bentref Gwenfô

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y deisebau hyn.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Wahodd y deisebwyr i gyflwyno tystiolaeth yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor

### (vi) P-03-205 Cadwch Farchnad Da Byw y Fenni

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Wahodd y deisebwyr i gyflwyno tystiolaeth yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mehefin 2009**